Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau

Gwylio Dolffiniaid

Cyflwyniad

Mawrth 2106



www.penllynarsarnau.co.uk

@ACA_PLAS_SAC

Pen Llŷn a'r Sarnau

## Cynnwys

1. Cyflwyniad....4
1.1 Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (ACA PLAS)....4
1.2 Anifeiliaid Morfilaidd yn y DU a Phen Llŷn....6
1.3 Côd Ymddygiad Morol Gwynedd....7
(i) Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn....7
(ii) Cyflwyniad i'r Côd Ymddygiad....8
1.4 Gwylio Dolffiniaid yn Llŷn....8
2. Ymchwil Presennol i Anifeiliaid Morfilaidd....10
2.1 Cyfoeth Naturiol Cymru....10
2.2 Cyngor Ceredigion ac ACA Bae Ceredigion....10
2.3 Canolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion....11
2.4 *Sea Watch Foundation*....11
2.5 *Whales and Dolphin Conservation*....11
3. Cynllun y Prosiect....12
3.1 Dewis y lleoliad gorau bosib....12
3.2 Arolwg Prawf....16
3.3 Asesiad Risg....16
3.4 Sut mae'r sesiynau'n gweithio....18
3.5 Casglu Gwirfoddolwyr....19
4. Atodiadau....21
Atodiad 1 - Cod Ymddygiad Gwynedd....22
Atodiad 2 - Cysylltiadau gwe i fwy o wybodaeth ar ymchwil i anifeiliaid morfilaidd....23
Atodiad 3 - Asesiad risg llawn....24
Atodiad 4 - Taflen Gofnodi....26

# 1. Cyflwyniad




## *1.1 Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (ACA PLAS)*

Oherwydd y tirweddau tanddwr amryfal ac anghyffredin, y mathau o gynefin a'r anifeiliaid a'r planhigion anhygoel sy'n byw yn yr ardal, mae'r arfordir a'r môr o amgylch penrhyn Llŷn a gogledd Bae Ceredigion wedi ei warchod fel Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (ACA PLAS) - safle cadwraeth bywyd gwyllt sydd wedi ennill ei ddynodiad fel un o'r ardaloedd bywyd gwyllt gorau yn Ewrop (gwneir y dynodiad ACA dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd y GE sy'n helpu i weithredu targedau a gytunwyd yn fyd-eang i helpu atal colli bioamrywiaeth). Mae'r ACA mawr hwn yn cynnwys penrhyn Llŷn i'r gogledd, Bae Tremadog a riffiau'r Sarnau yn yr hanner deheuol yn ogystal ag aberoedd mawr ar hyd arfordir Meirionnydd a gogledd Ceredigion.



Mae gan yr ACA Grŵp Awdurdodau Perthnasol (GAP) sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyngor Powys, Cyngor Ceredigion, Dŵr Cymru, Severn Trent, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Thŷ'r Drindod; mae gan y sefydliadau hyn faes gwaith penodol yn yr amgylchedd morol. Mae bod yn rhan o'r GAP yn cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau i'r ACA ac yn helpu i hyrwyddo cydweithio i gwrdd ag ymrwymiadau'r awdurdodau hyn ac i reoli'r ACA yn ffafriol.

Gwaith y GAP yw goruchwylio rheolaeth y ACA, a drwy weithio fel grŵp, adnabod camau gweithredu a rhannu gwybodaeth ac adnoddau i reoli'r safle gan gyfannu hyn gyda'u gwaith/mentrau eraill. Mae Swyddog ACA i'r safle sy'n hwyluso'r GAP, yn

gweithio gyda hwy i gyflawni agweddau o waith prosiect ACA, helpu i sicrhau bod ymrwymiadau gan eu hawdurdod i gyflawni eu dyletswyddau tuag at yr ACA a drwy arwain gweithrediad prosiectau rheoli penodol. Yn ogystal, mae gan yr ACA Grŵp Cyswllt sy'n cynnwys nifer fawr o gynrychiolwyr o wahanol ddiwydiannau a grwpiau diddordeb o amgylch y safle. Mae’r Grŵp Cyswllt yn gweithredu fel fforwm i grŵp ehangach o ddiddordebau i fod yn rhan o waith datblygu a gweithredu rheolaeth y safle. Gyda'i gilydd mae'r GAP a'r Grŵp Cyswllt yn darparu strwythur rheoli presennol ACA PLAS.

Mae rhai o'r prosiectau sydd wedi'u hadnabod gan y GAP a'r Grŵp Cyswllt ac sy'n cael eu cydlynu gan y Swyddog ACA yn cynnwys:

- Prosiect Morwellt Porthdinllaen - yn mynd i'r afael â'r effeithiau ar forwellt.
- Prosiect Troi Llanw - yn mynd i'r afael ag ysbwriel morol.
- Prosiect Ecosystemau Morol - yn gweithio gyda'r diwydiant pysgota ar sawl prosiect.
- Prosiect Morfa Gwyllt - yn mynd i'r afael â materion yn lagŵn Morfa Gwyllt.
- Sawl prosiect codi ymwybyddiaeth megis ymweliadau ysgol, y wefan, cyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau, ac ati.
- Prosiect O Dan y Môr a’i Donnau - yn ymchwilio i sawl techneg ddehongli sy'n darparu gwybodaeth ac yn dathlu ein amgylchedd morol lleol.



Mae strwythur rheoli cyfredol ACA PLAS wrthi'n cael ei adolygu gan Grŵp Llywio Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru fel rhan o adolygiad i ddewisiadau ardaloedd rheoli ar lefel Cymru gyfan. Un o’r argymhellion yw rheoli'r amgylchedd morol fel unedau gofodol daearyddol yn hytrach nag o gwmpas dynodiadau cadwraeth unigol. Mae hyn yn rhan o drafodaethau o amgylch yr angen am newid sylweddol yn y dull rheoli morol yng Nghymru i atal bioamrywiaeth rhag cael ei golli a sicrhau hyfywdra hirdymor y diwydiannau morol cynaliadwy. Mae'r dull partneriaeth hwn, o fewn ardal sy'n fwy na ffin safle, yn cefnogi'r dull ecosystemau hwn o reoli'n seiliedig ar ardal.

## 1.2 Anifeiliaid Morfilaidd yn y DU a Phen Llŷn

Mae'r moroedd o amgylch Cymru a'r DU yn gartref i amrediad eang o rywogaethau morfilaidd. Yn nyfroedd Cymru, dau o'r anifeiliaid morfilaidd mwyaf cyffredin ac sy'n ymddangos yn fwyaf eang yw'r llamhidydd a'r dolffin trwynbwl. Y mwyaf cyffredin yw'r llamhidydd, sy'n bresennol drwy gydol y flwyddyn mewn rhai ardaloedd ac mae lloi i'w gweld ledled Cymru. Dolffiniaid trwynbwl yw'r ail rywogaeth sy'n cael ei chofnodi fwyaf aml yng Nghymru ac fe ellir eu gweld bron drwy gydol y flwyddyn.

*Mae cyfanswm o 18 rhywogaeth morfilaidd wedi'u cofnodi ym moroedd Cymru dros y trideg mlynedd ddiwethaf (Baines & Evans, 2012). Y pum anifail morfilaidd sy'n cael eu hadrodd yn fwyaf aml yn nyfroedd Cymru yw'r llamhidydd (Phocoena phocoena), y dolffin trwynbwl (Tusiops truncatus), y dolffin cyffredin (Delphinus delphis), y dolffin llwyd (Grampus griseus) a'r morfil pigfain (Balaenoptera acutorostrata).* [1]

| Rhywogaethau Morfilaidd | Y prif ardaloedd maent yn cael eu gweld yn ACA PLAS | Adeg o'r flwyddyn |
|---|---|---|
| Llamhidydd | Arfordir de-orllewin Llŷn | Drwy gydol y flwyddyn |
| Dolffin trwynbwl | Bae Tremadog ac arfordir Gogledd Llŷn | Bron drwy gydol y flwyddyn |

**Tabl 1: Cyfraddau cymedrig hir-dymor o ran gweld y Llamhidydd a'r Dolffin Trwynbwl yng Nghymru (Woolmer & Owen, 2015)**

Mae Bae Ceredigion a'r dyfroedd o amgylch Pen Llŷn yn gartref i boblogaeth dolffin trwynbwl arfordirol mwyaf Prydain, ac yn flynyddol mae rhwng dau a thri chant ohonynt yma. Mae rhai'n byw yn y rhanbarth drwy gydol y flwyddyn, gyda benywod aeddfed yn rhoi genedigaeth i loi bob tair blynedd ar gyfartaledd. Mae'r safleoedd a ffefrir ar gyfer bwydo a gofalu am y lloi wedi'u lleoli yn enwedig ar hyd yr arfordir ac o amgylch yr aberoedd (Sarn Padrig, Sarn Cynfelyn a Sarn y Bwlch). Mae rhai eraill yn treulio'r haf yno ond yna'n gwasgaru yn yr hydref i ardal ehangach, yn aml tua'r gogledd i Ynys Môn, i Ynys Manaw a thu hwnt, cyn dychwelyd yn y gwanwyn. Mae'r dolffin trwynbwl yn nodwedd a warchodir yn ACA PLAS, ac mae wedi'i restru dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, ac mae'r ACA wedi cael ei dewis ar ei chyfer. Felly, ystyrir bod ACA PLAS yn un o'r ardaloedd gorau yn y DU ar gyfer dolffiniaid trwynbwl. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y poblogaethau hyn dan fygythiad parhaus o sawl ffynhonnell.

1 Woolmer & Owen, 2015.

*These populations, like cetaceans worldwide, are under direct threat from a range of anthropogenic forces (Leeneyet al. 2008). Ship strikes, climate change, habitat destruction, pollution and incidental take (or bycatch) are some of the most immediate threats in British waters (Hammond et al. 2013; Harwood, 2001).* [2]

## 1.3 Cod Ymddygiad Morol Gwynedd

### (i) Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn



Mae'r Prosiect Ecosystemau Morol yn brosiect peilot sydd wedi'i leoli ym Mhen Llŷn ac yn esblygiad o waith Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (ACA PLAS) Datblygwyd y prosiect hwn o ddogfen a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA) o'r enw *'Striking the Balance'* a gynigai ddull o reoli'r môr i wella ein dealltwriaeth o'r amgylchedd morol a hyrwyddo adferiad a gwytnwch ecosystemau heb gael effaith andwyol ar bysgotwyr a chymunedau lleol; dull fyddai hefyd yn diogelu bywyd diwylliannol ac economaidd ac yn amddiffyn pysgodfeydd traddodiadol a gweithgareddau hamdden. Mae ACA PLAS a'r WFA yn arwain y prosiect ar y cyd, gan adlewyrchu'r ffaith fod cadwraeth a'r diwydiant pysgota yn adnabod angen i weithio ar y cyd er mwyn gwneud gwaith cadwriaethol a rheoli'r amgylchedd morol yn effeithiol, a phwysleisio'r angen am reolaeth ar y cyd ac ymgynghori fel rhan o ddull cydlynol.



2 Woolmer & Owen, 2015.

Mae'r dull a ddefnyddir i weithredu'r prosiect a'r dyheadau ar ei gyfer wedi'u cefnogi mewn egwyddor gan ddatblygiadau deddfwriaethol diweddar yng Nghymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a'r Bil yr Amgylchedd 2016.

(ii) **Cyflwyniad i'r Cod Ymddygiad**

Un maes gwaith ar gyfer Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn yw datblygu cod ymddygiad newydd ar gyfer defnyddwyr y môr yng Ngwynedd mewn perthynas â nodweddion cadwraeth ACA PLAS. Mae'r cod ymddygiad presennol ar gyfer defnyddwyr y môr yng Ngwynedd wedi dyddio'n sylweddol, felly bu'r agwedd hon o'r prosiect yn gweithio i ddatblygu a dosbarthu cod newydd ar gyfer y sir (cynhyrchwyd y cod gwreiddiol yn y flwyddyn 2000 gan Gyfeillion Bae Ceredigion). Yn dilyn llwyddiant proses debyg yng Ngheredigion yn ddiweddar, cynhaliwyd trafodaethau â'r swyddogion perthnasol a rhoddwyd cytundeb yn ei le i rannu'r un cod. Mae hyn wedi osgoi dyblygu a bydd yn sicrhau bod cysondeb ar draws y bae. Lluniwyd cod newydd ar gyfer ymgynghori ac fe'i cyflwynwyd i'r rhanddeiliaid perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Cynhaliwyd sesiwn galw heibio ar 29 Awst, 2015 ym Mhlas Heli, Pwllheli i drafod y drafft. Cafodd y drafft a'r sesiynau galw heibio eu hyrwyddo ar ein safleoedd cyfryngau cymdeithasol ac fe anfonwyd copi o'r drafft i glybiau chwaraeon dŵr/antur, sefydliadau morol lleol, pysgotwyr a Chynghorwyr. Rhoddwyd gwahoddiad i unrhyw un â diddordeb i ddod draw i leisio eu barn neu rannu unrhyw syniadau ynghylch y drafft, a bu i 30 fynychu ar y diwrnod.

Bydd y cod newydd yn cael ei ddosbarthu i bawb sydd wedi cofrestru cwch pŵer neu *jet-ski* yng Ngwynedd a bydd y prosiect hwn yn ymchwilio i'r posibiliadau ynghylch codi ymwybyddiaeth a dosbarthu'r cod. Bydd y prosiect yn ymdrechu i addysgu pob defnyddiwr hamdden o bwysigrwydd glynu at y cod a bydd yn anelu at sicrhau hafan i bob math o fywyd gwyllt yn yr ACA. Mae'r prosiect hwn yn anelu at godi ymwybyddiaeth ynghylch y cod morol newydd yng Ngwynedd drwy lansio'r cod a'i farchnata i'r gynulleidfa berthnasol, a thrwy hynny sicrhau fod y cyhoedd yn ymrwymo iddo. Hefyd, bydd y prosiect yn ceisio gweithio gyda chynghorau Ynys Môn a Chonwy i hyrwyddo'r cod hwn o amgylch arfordir Gogledd Cymru ac yn gweithio tuag at god Cymru gyfan.

Gweler Atodiad 1 ar gyfer Cod Ymddygiad Morol Gwynedd.

## 1.4 *Gwylio Dolffiniaid yn Llŷn*

Bydd datblygiad rhaglen gwylio dolffiniaid gan ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn sicrhau gwerth ychwnaegol drwy fonitro bod pobl yn cydymffurfio gyda Chod Morol Gwynedd yn ogystal â chasglu data gwerthfawr a llenwi bylchau tystiolaeth yn yr ardal. Bydd yr

adroddiad hwn yn ystyried y gweithgareddau casglu data cyfredol yng Ngwynedd ac ACA eraill o ran anifeiliaid morfilaidd, a bydd yn llunio cynllun prosiect ar gyfer lansio prosiect gwylio dolffiniaid yn Llŷn.

# 2. Ymchwil Presennol i Anifeiliaid Morfilaidd




Mae sawl sefydliad ac unigolyn yn astudio ac yn arolygu anifeiliaid morfilaidd yng Nghymru. Nod y prosiect hwn yw gweithio gyda sefydliadau eraill yn y maes. Gweler isod grynodeb o'r gwaith mae sefydliadau allweddol yn ei wneud yn Llŷn. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phob sefydliad i sicrhau cydweithio effeithiol.

## 2.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae anifeiliaid morfilaidd wedi'u cynnwys yn rhaglen fonitro Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae dolffiniaid trwynbwl yn nodwedd gadwraeth o ACA PLAS felly bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn y gwaith o adrodd ar gyflwr y nodwedd i Ewrop. Yn ogystal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Awdurdod Perthnasol ar gyfer ACA PLAS.

http://naturalresources.wales/

## 2.2 Cyngor Ceredigion ac ACA Bae Ceredigion

Mae dolffiniaid trwynbwl yn nodwedd gadwraeth o ACA Bae Ceredigion. Fel awdurdod perthnasol, datblygodd Gyngor Ceredigion god ymddygiad ar gyfer defnyddwyr cychod hamdden. Mae Cyngor Ceredigion wedi bod yn weithgar o ran hyrwyddo'r cod ymddygiad ers blynyddoedd. Sefydlwyd rhaglen Gwylio Dolffiniaid i fonitro cydymffurfiaeth defnyddwyr cychod hamdden â'r cod ymddygiad. Maent yn gweithio'n agos iawn â Chanolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion ar y cynllun

Gwylio Dolffiniaid. Bydd canlyniadau gwaith Gwylio Dolffiniaid yn cyfarwyddo ymdrech yr ardal i hyrwyddo'r cod y flwyddyn ddilynol. Mae Canolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar ran Cyngor Ceredigion. Mae Swyddog ACA Bae Ceredigion yn gydlynydd ar gyfer sawl safle Gwylio Dolffiniaid. Yn ogystal, mae Cyngor Ceredigion yn Awdurdod Perthnasol ar gyfer ACA PLAS.

www.cardiganbaysac.org.uk/
www.ceredigion.gov.uk

## 2.3 Canolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion

Mae Canolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion yn cynnal sawl astudiaeth anifeiliaid morfilaidd ac yn cynhyrchu nifer o adroddiadau a phapurau. Maent yn rhan weithredol o gynllun Gwylio Dolffiniaid Ceredigion ac yn gweithredu fel cydlynydd ar gyfer sawl safle Gwylio Dolffiniaid.

www.cbmwc.org

## 2.4 Sea Watch Foundation

Mae'r Sea Watch Foundation yn elusen genedlaethol sy'n gweithio i wella cadwraeth a gwarchodaeth morfilod, dolffiniaid a llamhidyddion yn nyfroedd Prydain ac Iwerddon. Yn sgil eu rhaglen barhaus o ymchwilio a monitro, maent yn darparu gwybodaeth amhrisiadwy ynghylch newidiadau i statws a dosbarthiad poblogaethau morfilaidd ac ar gyflwr eu cynefinoedd. Maent yn cynnal arolygon gweithredol mewn sawl lleoliad sydd ganddynt yn Llŷn a'r cyffiniau. Maent hefyd yn cefnogi ac yn gweithio â nifer o fyfyrwyr ar brosiectau morfilaidd amrywiol.

www.seawatchfoundation.org.uk

## 2.5 Whales and Dolphin Conservation

Mae *Whale and Dolphin Conservation* yn elusen fyd-eang arweiniol sydd wedi ymrwymo i gadwraeth a gwarchodaeth morfilod a dolffiniaid. Maent yn ymgymryd â'r rôl hon drwy ymgyrchoedd, cynghori llywodraethau, prosiectau cadwraeth, ymchwil maes ac achub. Maent wedi cynnal sawl arolwg yn Llŷn dros y blynyddoedd.

http://uk.whales.org

# 3. Cynllun y Prosiect



### *3.1 Dewis y lleoliad gorau bosib*

Dewiswyd rhan 1 cilomedr o'r penrhyn rhwng Porth Bach a Phistyll Cim fel lleoliad ar gyfer casglu tystiolaeth. Mae rhan boblogaidd iawn o Lwybr Arfordir Cymru'n rhedeg drwy'r penrhyn hwn, ac mae'r ardal hon wedi'i lleoli yn y rhan sy'n arwain o Abersoch i Borth Ceiriad. Mae'r rhan hon o'r llwybr yn nodedig fel lleoliad ble y gwelir dolffiniaid yn aml drwy gydol y flwyddyn ac nid oes unrhyw waith casglu data swyddogol arall yn cael ei wneud o'r lleoliad hwn. Yn amlwg felly, mae'r lleoliad hwn yn ddelfrydol ar gyfer y prosiect.

Er dibenion casglu data ac er mwyn cael gwared ar unrhyw amrywiadau, bydd angen dewis un lleoliad penodol cyn i'r prosiect ddechrau a mynd ati i gasglu'r data mesuradwy.

Cynhaliwyd sawl ymweliad â'r safle er mwyn asesu lleoliadau gwylio posib ar gyfer y gwaith arolygu a rhoddwyd dau leoliad posib ar y rhestr fer. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried pob cyfle a rhwystr ar gyfer pob lleoliad, a diogelwch a llesiant gwirfoddolwyr a swyddogion yw'r flaenoriaeth. Cynhaliwyd asesiad risg llawn yn y ddau leoliad - gweler Atodiad 3.

Mae'r ddau leoliad dan sylw wedi'u lleoli ar y llwybr arfordir ac maent yn hygyrch o'r giât mochyn yn y maes parcio lled-strwythuredig heibio Gwesty Porth Tocyn (cyfeirnod grid: 32182622).





**Cyrraedd y llwybr arfordir yn y car:**

*Wrth deithio o Stryd Fawr Abersoch, ewch ar Lôn Sarn Bach a chariwch ymlaen am tua hanner milltir hyd nes i chi gyrraedd pentref Sarn Bach. Trowch i'r chwith gan ddilyn yr arwydd am Westy Porth Tocyn a dilynwch y lôn i fyny i bentrefan Porth Tocyn. Bydd arwydd arall i'w weld yn dangos troad i Westy Porth Tocyn, trowch i'r chwith. Cariwch ymlaen heibio'r gwesty a dilynwch y ffordd ddi-ddosbarth i lawr i'r giât mochyn a'r fynedfa i'r llwybr arfordir.*
*Cod Post - LL53 7BU*



**Cyrraedd y ddau leoliad posib ar y llwybr arfordir:**

*Ar ôl mynd ar y llwybr drwy'r giât mochyn, dilynwch y llwybr syth tuag at y penrhyn ac ewch drwy'r ail giât mochyn.*

**(i) Lleoliad Gwylio 1 (cyfeirnod grid: 32482611)**



I gyrraedd y lleoliad gwylio hwn, bydd angen i wirfoddolwyr dro i'r dde yn syth ar ôl iddynt fynd drwy'r ail giât mochyn a dringo ychydig i bwynt uchaf y rhan hon. Mae'r ardal hon yn wastad ac ar bellter rhesymol o ymyl y clogwyn, felly risg bosib fechan sydd i wirfoddolwyr neu swyddogion. Mantais arall i'r rhan hon yw'r pellter cerdded byr (5-10 munud o waith cerdded o'r maes parcio) a hynny ar lwybr cerdded fyddai'n cael ei ystyried fel taith gerdded hawdd. O bosib, byddai'r lleoliad hwn yn denu mwy o wirfoddolwyr, a byddai'n hygyrch i'r rhan fwyaf o gerddwyr o bob gallu.

Er bod sawl mantais i'r lleoliad hwn yng nghyd-destun y gwirfoddolwr cyffredin, mae'r lleoliad gryn bellter o'r môr na lleoliad 2, ac nid yw'n cynnig yr un olygfa banoramig o'r ardal forol.

**(ii) Lleoliad Gwylio 2 (cyfeirnod grid: 32612564)**



Mae gofyn cerdded am fwy o amser (tua 20 munud) i gyrraedd y lleoliad gwylio hwn. Ar ôl yr ail giât mochyn, dilynwch y llwybr arfordir am oddeutu hanner cilometr hyd nes i chi gyrraedd rhan mwy agored o'r penrhyn ac mae'r llwybr yn mynd i'r dde. Mae lleoliad 2 wedi'i leoli ar graig ger ymyl y clogwyn.







Mae'r lleoliad hwn yn cynnig llawer gwell golygfa o'r ardal sy'n cael ei harolygu na lleoliad 1, hyd yn oed heb finociwlars neu gyfarpar gwylio, ac mae'n addas ar gyfer gwirfoddolwyr di-brofiad neu ddechreuwyr.

## *3.2 Arolwg Prawf*

Cynhaliwyd arolwg prawf gan ddilyn yr un fformat â Rhaglen Gwylio Dolffiniaid Ceredigion. Bu i dri swyddog o Uned Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd, ac un person profiadol sy'n ymddiddori mewn bywyd gwyllt, gymryd rhan. Cwblhawyd yr holl ffurflenni perthnasol ac fe gasglwyd yr holl ddata. Roedd y cyfarpar yn cynnwys binociwlars a thelesgopau, ynghyd â llygaid moel. Gweler Atodiad 4 am enghraifft o daflen gofnodi.

## *3.3 Asesiad Risg*

Fel y nodwyd yn adran 3.1, cynhaliwyd asesiad risg llawn ar y ddau leoliad ac fe ellir eu gweld yn atodiad 2. Mae'r prif risgiau a gododd yn ystod yr asesiad wedi'u hamlygu isod, ynghyd â gwybodaeth werthfawr ac angenrheidiol arall ar gyfer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i wirfoddolwyr cyn y cynhelir arolwg ar y safle.

**(i) Enghraifft o wybodaeth a roddir i wirfoddolwr cyn cynnal arolwg**

Mae cadw'n saff yn gyfrifoldeb arnoch chi eich hun - edrychwch ar ôl eich hun ac aelodau eraill o'ch grŵp. Ynghyd â dilyn y Cod Cefn Gwlad, pan fyddwch yn cerdded ar y llwybr arfordir, cofiwch:

- Gadewch i rywun wybod ble rydych yn mynd a faint o'r gloch ydych chi'n debygol o fod yn ôl – mae'n anodd cael signal ffôn symudol ar yr arfordir (bydd y slotiau gwylio dolffiniaid yn ddwy awr, ond bydd angen i chi ystyried y pellter cerdded i'r lleoliad a'r siwrne yno yn y car)
- Ewch â bwyd a diod efo chi
- Gall llwybrau anffurfiol sy'n arwain at draethau fod yn beryglus ac mae'n well eu hosgoi
- Cadwch at y llwybr / lleoliad a nodwyd ac arhoswch i ffwrdd o ymylon clogwyni – dilynwch yr arwyddion a'r marciau

Er y gall fod yn demtasiwn mentro'n agos i ymyl clogwyni i gael cipolwg, dylech gadw draw ohonynt:

- gallai llithro neu faglu fod yn ddigon i'ch lladd
- mae rhai clogwyni'n gor-hongian neu'n ansefydlog ac nid yw hyn yn amlwg bob tro
- cymerwch ofal penodol pan fo'r gwair yn fyr gan y gall fod yn hynod llithrig pan mae'n wlyb

Gwisgwch yn ddoeth ar gyfer y dirwedd a'r tywydd - gwisgwch ddillad ac esgidiau addas a byddwch yn barod am newidiadau posib yn y tywydd.

- Edrychwch ar ragolygon y tywydd cyn mentro allan
- Amddiffynnwch eich hun rhag yr haul – mae awel y môr yn gallu cuddio ei gryfder
- Ar yr arfordir, mae tawch, niwl a gwyntoedd cryfion yn fwy tebygol a gall hyn fod yn fwy peryglus
- Gwisgwch esgidiau cyfforddus gyda grip da
- Ewch â dillad gwrth-ddŵr a dillad ychwanegol gyda chi, yn enwedig mewn tywydd oer
- Byddwch yn ymwybodol fod arwyneb y Llwybr Arfordir yn amrywio ac yn gyffredinol bydd yn fwy naturiol a mwy anwastad i ffwrdd o feysydd parcio, trefi a phentrefi.

I gynorthwyo'r gwasanaethau brys i ddod o hyd i chi'n gyflym, maent angen gwybod ble ydych chi. Ewch â chyfeirnod grid y lleoliad gwylio gyda chi fel bo modd i chi ddweud yn iawn ble ydych chi.

Gwybodaeth ddefnyddiol i gyfranogwyr:

Mewn argyfwng, ffoniwch 999 neu 112 a gofynnwch am Wylwyr y Glannau.

| | |
|---|---|
| Cyfeirnodau grid y lleoliadau – | 32482611/32612564 |
| Meddygfa Agosaf - | Meddygfa Abersoch, Lôn Sarn Bach, Abersoch, LL53 7EH. Rhif ffôn: 01758 712070. |
| Toiledau Cyhoeddus Agosaf - | Pentref Abersoch ger y bont (drwy gydol y flwyddyn)<br>Clwb Golff Abersoch (tymhorol, 1 Ebrill hyd 31 Hydref) |



## 3.4 Sut mae'r sesiynau'n gweithio

Mae'r adroddiad yn awgrymu treialu astudiaeth beilot gan arolygu 9 o sesiynau dwy awr dros gyfnod o dri diwrnod. Y dyddiau prysuraf o ran cychod yn Abersoch dros fisoedd yr haf yw dyddiau Sadwrn a Sul. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cynghori y dylid cael dau wirfoddolwr fesul slot, neu un gwirfoddolwr yng nghwmni unigolyn arall. Byddai hyn yn cael gwared ar y risgiau o weithio'n unigol.

Dylid cynnal y slotiau cychwynnol fel a ganlyn:

**11:00 – 13:00, 13:00 – 15:00, 15:00 – 17:00 (Gwener, Sadwrn a Sul)**

Byddai angen o leiaf 18 o wirfoddolwyr i lenwi'r slotiau hyn (h.y. o leiaf dau wirfoddolwr ar gyfer pob slot). Gellid ail-asesu nifer y cyfnodau/diwrnodau unwaith y byddwn yn gwybod faint o wirfoddolwyr sy'n fodlon cymryd rhan. Gellid ymestyn neu leihau'r peilot yn ddibynnol ar nifer y gwirfoddolwyr.

Bydd dwy ffurflen gofnodi i'w defnyddio: ffurflen ddata a thaflen map. Bydd gwybodaeth am y tywydd, cychod a welir ac ymddygiad yr anifeiliaid morfilaidd yn cael ei chofnodi ar y ffurflen ddata. Bydd lleoliad y grŵp dolffin neu lamhidydd, maint y grŵp a'u gweithgarwch pan y gwelwyd hwy am y tro cyntaf yn cael ei farcio ar y map, defnyddir un map ar gyfer pob 15 munud o arolygu. Wrth ddefnyddio mapiau, bydd modd gweld gwybodaeth ynghylch sut mae dolffiniaid yn defnyddio rhannau amrywiol o bob safle, a ble mae mwyafrif y cysylltiadau â chychod yn digwydd. Cesglir gwybodaeth fwy manwl ar sut mae defnyddwyr cychod yn ymddwyn o amgylch dolffiniaid, ac fe'u cyfeirir yn uniongyrchol i God Ymddygiad Gwynedd.

Bydd cofnodion taflenni data yn cynnwys:

- Yr amser mae'r cyfnod 15 munud yn dechrau
- Amodau'r tywydd - cyffredinol, cyflwr y gwynt a'r môr
- Gwybodaeth am y cwch agosaf at y dolffiniaid neu'r llamhidyddion:
- Math y cwch
- Pellter y llestr o'r anifail morfilaidd agosaf
- Cyfanswm nifer y cychod o fewn 300m i'r anifeiliaid morfilaidd hyn

Bydd y cofnodion taflenni map yn cynnwys:

- Lleoliad y grwpiau dolffin a llamhidydd ar ddechrau pob cyfnod 15 munud (neu pan welir hwy gyntaf)
- Cyfanswm nifer yr anifeiliaid ym mhob grŵp (h.y. yn cynnwys lloi)
- Nifer y lloi sy'n bresennol
- Gweithgarwch cyfredol y grŵp.

Gweler taflen ddata a thaflen fap enghreifftiol yn Atodiad 4.

Cyn mynd ati i wneud unrhyw waith arolygu, byddai'r adroddiad hwn yn cynghori y dylid mynd â'r holl wirfoddolwyr i'r safle a chael eu briffio'n llawn ar ofynion yr arolwg (gweler atodiad 5 am enghraifft o nodiadau canllaw ar gyfer ffurflenni data). Yn ogystal, dylid briffio'r gwirfoddolwyr ar unrhyw fesurau lleihau/gwaredu risg a drafodwyd yn yr asesiad risg, a rhoi ymwadiad ffurfiol iddynt i'w lofnodi.

### *3.5 Casglu Gwirfoddolwyr*

Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a'i weithgorau wedi cynnal dull gweithredol o ymgysylltu â phartneriaid a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae technegau niferus wedi'u defnyddio i godi ymwybyddiaeth a sefydlu prosiectau yn yr ardal hon. Dylid defnyddio partneriaid perthnasol i ddosbarthu gwybodaeth ynghylch y prosiect a dylid mynd at wirfoddolwyr cyfredol. Dylai cyfle fod ar gael i wirfoddolwyr gael unrhyw wybodaeth ynghylch y prosiect gwylio dolffiniaid mewn unrhyw ddyddiau codi ymwybyddiaeth mae ACA PLAS neu weithgorau'n eu mynychu.

Dylid cysylltu â Galwad Cynnar ar BBC Radio Cymru gan bod y rhaglen yn canolbwyntio llawer ar natur a bywyd gwyllt ac mae'n blatfform da i ddenu pobl sydd â diddordeb mewn prosiect o'r fath.

Dylai'r prosiect ryddhau gwybodaeth ynghylch y gwaith gwylio dolffiniaid i'r wasg a dylid ysgrifennu erthygl ar gyfer papurau newydd lleol, Llanw Llŷn, Abersoch Sensation a'r Caernarfon and Denbigh Herald.

Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a'i weithgorau yn weithredol iawn ac mae ganddynt bresenoldeb cryf ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Mae gwybodaeth yn cael ei phostio a'i rhannu'n rheolaidd ynghylch unrhyw ddatblygiadau a gwybodaeth berthnasol arall sydd o ddiddordeb i ddilynwyr. Mae'r safleoedd cyfryngau cymdeithasol wedi ennyn nifer sylweddol o ddilynwyr ac mae'r tudalennau'n rhyngweithio â'r cyhoedd yn rheolaidd. Mae'r dechneg gyflym a deinamig hon wedi profi'n hynod effeithiol ac mae'r cyhoedd yn ymgysylltu'n gadarnhaol. Mae'r ACA yn cydweithio'n ddigidol â phartneriaid er mwyn rhannu gwybodaeth i gynulleidfa ehangach ac mae hyn wedi profi i fod yn hynod effeithiol gyda mwy a mwy o bobl yn ymgysylltu ac yn ymweld â'r safleoedd. Mae'r partneriaid digidol yn cynnwys:

- Eco-amgueddfa Llŷn
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Llwybr Arfordir Cymru
- CNC
- Prosiect Morwellt
- MCS

- Bws Arfordirol Llŷn

Mae'r ACA wedi mynd ati'n barod i bostio gwybodaeth ynghylch prosiect gwylio dolffiniaid posib yn Llŷn ac mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol iawn. Dylid cario ymlaen â hyn, a dylid ymchwilio i'r dewisiadau ynghylch cael grwpiau neu fforymau penodol ar Facebook ar gyfer gwirfoddolwyr y cynllun gwylio dolffiniaid.

# 4. Atodiadau

Atodiad 1 - Cod Ymddygiad Morol Gwynedd
Atodiad 2 - Cysylltiadau gwe i fwy o wybodaeth ar ymchwil i anifeiliaid morfilaidd
Atodiad 3 - Asesiad risg llawn
Atodiad 4 - Taflen Gofnodi

## *Atodiad 1 - Cod Ymddygiad Gwynedd*

# Côd Morol Gwynedd

**Byddwch yn wyliadwrus gan gadw draw o fywyd gwyllt. Peidiwch â mynd at famaliaid môr, gadewch iddynt ddod atoch chi. Byddwch yn ofalus wrth lywio cychod, gan sicrhau diogelwch y teithwyr a pharchu pobl eraill sy'n defnyddio'r môr.**

### Dolffiniaid, Llamhidyddion a Morloi

Os dewch chi ar draws y creaduriaid hyn yn y môr:


- **Arafwch** yn raddol i'r cyflymder isaf posib. Peidiwch â newid eich cyflymder na'ch cwrs yn sydyn.
- **Peidiwch** â llywio'r cwch yn syth atynt na mynd yn nes na 100 medr.
- **Peidiwch** â cheisio cyffwrdd y creaduriaid, eu bwydo na nofio â hwy.
- **Byddwch** yn arbennig o ofalus wrth osgoi aflonyddu ar anifeiliaid gyda rhai ifainc.
- **Peidiwch** â mynd at forloi sy'n gorffwys ar y lan, a pheidiwch â mynd i mewn i ogofâu môr yn y tymor lloea (1 Awst tan 31 Hydref).
- **Peidiwch** â thaflu sbwriel na chyfarpar pysgota i'r môr.
- **Peidiwch** â gwneud unrhyw sŵn diangen ger yr anifeiliaid.

**Mae'r côd hwn yn berthnasol i bob llong a chwch hamdden yn cynnwys cychod modur, cychod hwylio, dingis, badau personol, caiacau a chanŵod. Dylech gydymffurfio â phob cais gan gychod patrolio lleol a bod yn ymwybodol o derfynau cyflymder o amgylch traethau ymdrochi a safleoedd bywyd gwyllt.**

### Adar

- **Cadwch** draw o'r clogwyni yn y tymor bridio

  (1af o Fawrth – 31 Gorffennaf).
- **Peidiwch** â gwneud sŵn diangen wrth y clogwyni.
- **Cadwch** draw o heidiau adar sy'n gorffwys neu'n bwydo ar y môr.




**Noder fod Harbwrfeistri a Swyddogion Rheoli Lansio Gwynedd wedi'u hawdurdodi i dynnu trwyddedau lansio a/neu angori oddi ar gychod ac unigolion nad ydynt yn cadw at reoliadau lleol, is-ddeddfau neu Gôd Morol Gwynedd. Mae'n drosedd i aflonyddu'n fwriadol neu'n ddi-hid ar unrhyw rywogaeth a warchodir (megis dolffiniaid).**



## *Atodiad 2 - Cysylltiadau gwe i fwy o wybodaeth ar ymchwil i anifeiliaid morfilaidd*

http://naturalresources.wales/

www.cardiganbaysac.org.uk/

www.ceredigion.gov.uk

www.cbmwc.org

www.seawatchfoundation.org.uk

http://uk.whales.org

## *Atodiad 3 - Asesiad risg llawn*

**Adran Rheoleiddio**
**Regulatory Directorate**

| **Dolphin Watch – Volunteers Survey work on the Coastal Path** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Identification of Hazard | Consequences | To Whom | Severity | Assessment Likelihood | Risk Factor | Control Measures | Residual Risk |
| **Slips trips and falls whilst using Path furniture (gates, benches, bridges, steps, stiles (timber & masonry)** | • Personal injury including broken bones, grazed skin, head injury .<br>• Drowning<br>• Damage to property | Volunteers/staff | 3 | D | Medium | • Equipment are monitored by staff at regular intervals and findings recorded and acted upon<br>• Check with Coastal Path Officers prior to volunteers visiting | 4D |
| **Use of roads, pavements, urban areas, car parks., bollards, height barriers and rural lanes/minor roads. Path user mixing with Vehicles and machinery (non-agricultural.) used by. local residents others. contractors (including illegal access to work sites.)** | • Personal injury including broken limbs/bones<br>• head injury<br>• Damage to property<br>• Death | Volunteers/staff | 2 | D | High | • Liaise with other unit within council in particular the transportation/ highways units | 3E |
| **Agricultural practices on public paths including use of machinery and. other operations for example crop spraying/mowing heavy lifting gear etc. , resulting in path user having collision with machinery and/or being exposed to chemicals.** | • Personal injury including broken limbs/bones, head injury<br>• Poison<br>• Death<br>• Diseases such as cancer | Volunteers/staff | 2 | D | High | • Staff to liaise with Coastal Path Officer regularly to get updated on any closures, or agricultural practices being carried out on the path | 3E |
| **Cliffs and steep slopes (climbing, scrambling above deep water, landslides. , falling, including slips trips and falls (fatal)** | • Personal injury including broken bones, grazed skin.<br>• head injury .<br>• Drowning<br>• Death | Volunteers/staff | 2 | C | High | • Informing all volunteers of the dangers of the cliffs and steep slopes and urge them not to venture towards them. | 3E |
| **Paths surface (uneven surface, adverse camber pot holes , rabbit holes, resulting in path user having slips trips or falls (non-fatal)** | • Personal injury including broken bones grazed skin.<br>• Head injury | Volunteers/staff | 4 | D | Low | • Check with Coastal Path Officers prior to volunteers visiting | 4E |
| **Vegetation (path side, tripping, cuts, poisonous plants, for example giant hogweed )** | • Personal injury including broken bones, grazed skin.<br>• Burning skin<br>• Diseases such as cancer<br>• Poisoning | Volunteers/staff | 4 | D | Low | • Check with Coastal Path Officers prior to volunteers visiting | 4E |
| **Overhanging Vegetation within woodland minor/young trees/saplings. <2.5m max height, falling small deadwood branches colliding with path user** | • Personal injury including grazed skin<br>• head injury<br>• Damage to property | Volunteers/staff | 4 | D | Low | • Check with Coastal Path Officers prior to volunteers visiting especially after an event such as a storm, high wind-speeds, fires etc. | 4D |
| **Overhanging Vegetation within woodland large branches falling and** | • Personal injury including broken bones ,grazed skin. | Volunteers/staff | 2 | D | High | • Check with Coastal Path Officers prior to volunteers visiting especially after an event such as a storm, high | 2E |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **colliding with path user** | • Head injury<br>• Death<br>• Damage to property | | | | | wind-speeds. fires etc. | |
| **Farm animals including bulls, cows with calves at foot bullocks, steers and heifers. sheep and rams horses donkeys pigs , resulting in trampling/biting generally attacking path user** | • Personal injury including broken bones ,grazed skin.<br>• Head injury<br>• Death | Volunteers/staff | 2 | C | **High** | • Check with Coastal Path Officers prior to volunteers visiting especially after an event such as a storm, high wind-speeds. fires etc.<br>• Staff to educate volunteers via countryside codes etc the dangerous of walking with a dog through farmland. | **2D** |
| **Rivers, sea, canals open ditches , lakes and other form of waters shallow and deep, also water structures such as sea defences , weirs, viaducts including mudflats and reed beds. Resulting in path user falling into or become entrapped in one of the above** | • Personal injury including broken bones, grazed skin<br>• Hypothermia<br>• Drowning<br>• Death | Volunteers/staff | 2 | D | **High** | • Check with Coastal Path Officers prior to volunteers visiting especially after an event such as a storm, high wind-speeds. fires etc. | **2E** |
| **Rubbish /fly tipping causing path user to interact with dangerous substances hazardous waste product and broken glass and metals** | • Personal injury including broken bones, grazed skin.<br>• Burning skin<br>• diseases<br>• Poisoning | Volunteers/staff | 3 | E | **Medium** | • Staff to liaise with other unit within the council for example public protection.<br>• Report any findings of fly tipping so that danger is removed as soon as possible | **3E** |
| **Fires/smokes including wild fires ,and smoke from industrial chimneys** | • Personal injury including burns<br>• Death<br>• Inhalation<br>• Damage to property | Volunteers/staff | 2 | D | **High** | • Check with Coastal Path Officers prior to volunteers visiting | **3E** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Intimidating people, including landowners/members of public on public paths.** | • Death<br>• Damage to property<br>• Verbal abuse<br>• Physical abuse resulting in personal injury | Volunteers/staff | 3 | C | **High** | • Good working practice for Staff Lone-working , visiting known intimidating people with another team member<br>• Liaise with HS dept. on intimidating people's register list before making initial site visit<br>• Staff to discuss site visit to unknown properties with local councillors and or community council to gain local knowledge. | **3E** |
| **Dogs faeces and attack** | • Personal injury including broken bones, bites.<br>• Diseases such as Toxocariasis | Volunteers/staff | 3 | D | **Medium** | • Staff to liaise with other unit within the council for example public protection's dog unit.<br>• Report any findings of fly tipping and or dangerous dogs to the relevant officer, so that danger is removed as soon as possible. | **3E** |
| | • | | | | | • | |

| | | |
|---|---|---|
| **Notes:** | | OVERALL ASSESSMENT ACCEPTABLE ☒ YES ☐ NO |
| ASSESSMENT CARRIED OUT BY: Catrin Glyn | DATE OF ASSESSMENT: 14 – 01 - 16 | |

## *Atodiad 4 - Taflen Gofnodi*

Cyfanswm Nifer y morfilod a arsylwyd:

**Enw:** **Lleoliad:** **Dyddiad/Amser Cychwyn:**

| MAP | Cyfnod 15 mun. | TYWYDD | | | MAMALIAID MOROL | CYFARFYDDIAD CWCH [illegible] | | | | | NODIADAU |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amser Cychwyn | Cyffredinol | Cyfeiriad y Gwynt | Cyflwr y Môr | Rhywogaeth a Welwyd | Math | Cyfanswm y Cychod <300 m | 50 m? (llc) | Cod Ymddygiad | Ymddygiad Morfil | |
| A | | | | | | | | | | | |
| B | | | | | | | | | | | |
| C | | | | | | | | | | | |
| D | | | | | | | | | | | |
| E | | | | | | | | | | | |
| F | | | | | | | | | | | |
| G | | | | | | | | | | | |
| H | | | | | | | | | | | |

| MATH Y GWCH | | COFNOD | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| MB | Cwch modur hamdden, criwser, cwch bach gydag injan allanol | | |
| SB | Cwch gwib o fath rasio neu RIB | | |
| SS | Cwch gwib gyda sgiwr-dŵr | | |
| SAIL | Unrhyw gwch dan hwyl gan gynnwys hwylfyrddau | | |
| CF | Cwch pysgota masnachol | | |

Nifer y Gwahanol Gychod a Welwyd mewn 2 Awr [illegible]

| MATH Y GWCH | | COFNOD | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| VPB | Cwch Teithio i Ymwelwyr | | |
| C | Canŵ/Caiac/Padlfwrdd | | |
| J | Sgi jet, cwch personol | | |
| R | Cwch Ymchwilio Anifeiliaid Morfilaidd (cofnodwch enw'r cwch) | | |